WG35. S. 231

"Coffadwriaeth y Cyfiawn sydd Fendigedig."

# DWY FARWNAD

ER COF AM Y DIWEDDAR

# Barch. DAVID HUGHES,

LLANENGAN.

*(Cyd-Fuddugol yn Nghyfarfod Llenyddol Penlleyn.)*

Cyhoeddedig dan Nawdd Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Penlleyn.

PWLLHELI:
ARGRAFFWYD GAN ROBERT OWEN, HEOL FAWR.

PRIS PEDAIR CEINIOG.

## Y FEIRNIADAETH.

O'r cyfansoddiadau gwir dda a ddaeth i law, mae y gystadleuaeth rhwng "Arion" a "Galarwr gŵyl ei eiriau."

"*Arion.*"—Anurddir cyfansoddiad yr awdwr hwn âg ychydig o fân frychau. Ceir ynddo rai geiriau wedi eu camsillebu, rhai llinellau cloff eu corfaniad, a rhai odliadau afrëolaidd. Mae ynddo rai darnau hefyd yn tueddu ychydig i fod yn amleiriog ac yn ddibwynt. Ond medda cyfansoddiad "Arion" ei ragoriaethau diameuol. Mae yn dra barddonol neu awenyddol drwyddo. Ac mae ei ddarluniad o'r gwrthddrych yn ganmoladwy o dêg a chywir, ac weithiau yn darawiadol; ïe, medda "Arion" y llestr hwnw "i godi dwfr" o bydewau dagrau lled ddyfnion hefyd.

"*Galarwr gwyl ei eiriau.*"—Ceir pobpeth bron gan "Galarwr" yn gymeradwy o gywir. Sicr ei fod yn hen gynefin â barddoni. Llifa ei awen yn rhwydd fel y llifa dyfroedd yr afon. Casglwn y gallai fod yn awdwr gwych ar ganiadau byrion, darllenadwy, canadwy o dri neu bedwar penill; ond gyda chyfansoddiad lled faith, megys y farwnad hon, tebygol na fedd efe flas i gymeryd llawer o hamdden nac i wneuthur ymdrechion *celyd* i grëu lluosogrwydd o ddrychfeddyliau newyddion, uchel, a byw. Dyma ddiffyg mwyaf yr awdwr yn y dernyn hwn. Er hyny, rhwydd-roddwn iddo y clod o dynu darlun tra chelfydd a ffyddlawn o'r gwrthddrych, ac nid hyny yn unig, ond darlun tra thlws a phrydferth ohono.

Tynir y dorch yn galed rhwng "Galarwr gŵyl ei eiriau" ac "Arion." Lle y collai un, ennillai y llall. "Arion" yw y mwyaf gwreiddiol a thanbaid ei awen, ond "Galarwr gŵyl ei eiriau" yw y mwyaf celfydd a llithrig. Wedi eu darllen drosodd amryw weithiau, a cholli aml i ddeigr hiraethlawn am eu pen wrth mor fyw y gosodent y gwrthddrych ger ein bron, gorfodir ni i osod y ddau yn gydradd o ran teilyngdod, gan ychwanegu mai da yr haeddasai pob un o honynt y wobr yn gyfan.

PLENYDD.

24.1.39.

Y fan y dyrcha 'r Wyddfa wèn
Drwy 'r cwmwl trwch ei chribog ben,
Yn mhell i'r uchelderau fry,
Yn deyrn y fro ar fryniau lu:
Y fan gwastraffodd natur dêg
A llaw ddibrin ei cheinion chweg;
Y fan y claddwyd myrdd heb arch,
Dan garnau dûr y rhuddog farch,
Wrth ymladd dros eu gwlad a'u hiaith,
Yn erbyn estron lawer gwaith:
Hon ydyw 'r fan, yn nghanol swyn,
A gwyllt unigedd anian fwyn,
Y treuliodd HUGHES ei foreu oes,
Heb wybod ystyr cur a loes.
Wrth yfed yr awelon iach,
Ar fryn a dôl yn blentyn bach,
Daeth ef o'r lle yn ddarlun byw,
Yn union fel daeth dan law Duw.
Fel yr Eryri, ynddo cawn
Wreiddioldeb a naturiol ddawn;
Symledd, nid efelychiad ffôl,
Ac annibyniaeth didröi 'n ol;
A'r oll yn adlewyrchu 'n glir,
Dan oleu Haul Cyfiawnder gwir.
O! amser dedwydd, llawn o swyn,
Ef a'i gymdeithion fel yr ŵyn,
Heb wybod dim am dwyll y byd,
Ystyrient ef yn flodau i gyd.
Er pan y rhoddodd gyntaf gam,
'R oedd gwersi ac adnodau 'i fam
Yn planu mesen crefydd wir
Yn naear dda ei feddwl clir.

Ond Dirwest o'r diwedd ysgubodd
  Drwy 'r wlad, ac a'i rhoddodd yn rhydd :
Ei enaid gan zêl oedd yn tanio,
  A'i ddoniau a swynent y wlad ;
Er ceisio rhwng dodrefn ymguddio,
  Ei wthio i'r Pwlpud a wnaed.

Nid peth bychan ydoedd meddwl
  Pan yn naw ar hugain oed,
Croesi rhiniog teml addysg
  Am y gyntaf waith erioed ;
Ond gorawydd am ddysgeidiaeth
  Lysg fel tân ei ysbryd ef,
Ac i Glynnog mae yn myned
  I ddiwyllio 'i dalent gref.

Gweithio wnaeth drwy anhawsderau,
  Nes gorchfygu 'r oll yn lân ;
Rhai'n yn lle ei ddigaloni,
  A'i symbylent yn ei flaen :
Goleu lawer noswaith gauaf
  Fu ei ganwyll drwy y nos ;
Prynai 'r amser fel pe 'n gwybod
  Mai bèr iawn a fyddai 'i oes.

Difyr fyddai gwrando arno,
  Gyda ffraethder oedd ddiball,
Yn adgofio am ryw droion
  Trwstan fu ar hwn a'r llall ;
Am ei lafur pan yn ceisio
  Casglu ambell flod'yn hardd,
Oddiar lethrau serth dysgeidiaeth,
  Dan arweiniad Eben Fardd.

'Roedd amryw eglwysi yn awr yn ei geisio,
Drwy serchog alwadau i dd'od i'w bugeilio.
Crefyddwyr Lleyn deimlent fod eisieu dyn ffyddlon
I borthi 'r gwasgarog braidd yn Aberdaron:
Fod y lle yn anghysbell, a'r maes yn ehelaeth,
A phobl yn marw o eisieu gwybodaeth.
Am Hughes y meddylid, ac yntau gydsyniodd
Ar unwaith,—egwyddor, nid teimlad orfuodd;
Cryn aberth oedd myned dan lèni dinodedd,
Ond ei oes oedd *un* aberth o'i dechreu i'w diwedd;
Hawdd iawn y gallasai gael lle mwy manteisiol,
Ond cyflwr yr ardal a dröes y fantol.
Er nad oedd yn un o erch feibion y daran,
Ei bregeth oedd lawn naturioldeb fel trydan;
Nid ffôl ddynwarediad a chywrain sylwadau,
I foddio y glust ac i ennyn teimladau
Geid ganddo; na, 'r gwir fel y mae yn yr Iesu,
Yn syml, nes dwyn y gwrandawyr i'w gredu.
Aur pur oedd ei bregeth, pob gair yn llawn meddwl,
Ffrwyth barn annibynol, a meddwl digwmwl.
Fel cawod ar laswellt ei eiriau ddysgynent,
Ysbrydoedd credinwyr gwywedig siriolent:
Ac iâ anghrediniaeth o fewn llawer calon
Ymdoddai dan allu ei wresog gymhellion.
Nid elw a pharch ro'i ddylanwad i'w daerni,
Ond golwg ar ddynion ar geulan trueni,—
Bron, bron syrthio drosodd, ac awydd angerddol
Eu gweled yn rhedeg yr yrfa ysbrydol.

Agor wnai rhyw feusydd ëang
Iawn o waith o'i flaen yn awr;
Dechreu arnynt wnaeth o ddifrif,
Nid diogi ac eistedd lawr:

Cyn ymgolli mewn tywyllwch,
  Ar ol oes o fèr barhâd
Oedd, ond seren glir y gogledd,
  Daflai wawl dros dònau 'r byd,
Yn arweiniad i'r ffyddloniaid,
  Tua 'r porthladd tawel, clyd.

Er mor anhawdd, rhaid ffarwelio,
  Ar ol chwech o flwyddi maith:
Prudd yw pawb, a lliaws wylant,
  Gan mor anhawdd ydyw 'r gwaith:
Cylch ëangach o weithgarwch
  Yn Llanengan iddo roed,
Ond mae awydd am lafurio
  Mor angerddol âg erioed.

Gweithio dros ei Arglwydd ydoedd
  Fwyd a diod iddo ef;
Bwlch a Smyrna aent a'i feddwl,
  Pan oedd braidd ar drothwy 'r nef:
Ni chyfyngid ei weithgarwch
  I derfynau cyfyng plaid,
I bob achos Cristionogol,
  Ynddo ef cefnogwr gaid.

Ei ragoriaethau oeddynt aml eu rhi',
Eu nodi oll sydd ormod gwaith i ni:
Anghofio 'r ansoddeiriau wnawn bob un,
Yn unig dd'weyd ei fod yn gyflawn ddyn:
Cyfluniad ydoedd ei gymeriad pur
O ragoriaethau prydferth iawn yn wir,—
Fel coron dlôs yn llawn o berlau drud,
Mor ddysglaer nes yn hollol ddenu bryd;
Uwch ben pob un y meddwl â ar goll,
'Does dim i'w wneyd ond synu at yr oll.

Cyfodai ein hysbrydoedd gyd âg ef,
A theimlem yn awyrgylch bur y nef.
Brenhinbren cadarn ydoedd ledai i ma's,
Ei geingciau tirf yn mhur awyrgylch gras;
Ei gysgod wnai i weiniaid Seion ferth,—
Er stormydd, dyfu, ffrwytho, a chasglu nreht.

Nid ymddangosiad gwych, ond bod
Yr hyn broffesai, dyna oedd ei nôd:
Nid celfyddydol wull, dinôdd, disawr,
Ond blodau rhinwedd, fel yr Iesu mawr,
Flagurent yn ei fuchedd sanctaidd ef,
Gan wasgar peraroglau nef y nef;
Nid darlun ymddangosai 'n fyw o draw,
A'r swyn yn colli ar gyffyrddiad llaw,
Ond Cristion oedd, a'i lariaidd wên o bell
Yn galw ato i'w edmygu 'n well;
Fel haul agosaf byddid iddo ef
Yn gryfach teimlid gwres grasusau 'r nef.

Fel Daniel, yn y dirgel yr ymbiliai,—
Y "Chwarel fawr*" gysegrwyd â gweddïau;
O! fan dymunol yno 'n cymdeithasu
A Duw ei hun heb neb i'w aflonyddu:
Y wybr uwchben mor lâs, mor lawn o burdeb,
Yn rho'i ryw syniad am y tragywyddoldeb.
Y blodau tlysion gylch ei draed yn gwenu,
Tra 'r hwyrol awel yn eu süo i gysgu:
Rhyw ddarlun ydyw o sefyllfa wiwlwys,
Ein rïaint cyn eu gyru o Baradwys.
Cyfrifai pawb y llanerch gysegredig
Yn Bethel, porth y nefoedd anweledig.

---

* Chwarel yn agos i'w dŷ, lle yr â'i yn aml i astudio a gweddïo.

Yr ysgol iddo 'n famaeth fu,
  A'i charu wnai 'n angerddol:
Awgrymai ac esboniai 'n goeth,
  Nes deuai 'n noeth i'r golwg,—
Y gwir oedd yn y pellder draw,
  I ddylni daw yn amlwg.

Ni wnai esboniad hwn a'r llall,
  A myn'd yn ddall i'w ganlyn,
Y tro, rhaid oedd cael Beibl pur,
  A syniad clir a dillyn:
Ei lariaidd wên ro'i nerth i'r gwàn,
  A'i yn y fan yn wrol;
Ond gair a roddai deulu 'r chwydd,
  I lawr yn rhwydd ryfeddol.

Ni roddai ystrydebol farn,
  A dyna derfyn arni;
Ymguddiai fel yr haul tu ol
  I lewyrch ei oleuni:
Cyfeirio ereill wnai yn glau
  At berlau godidocaf,
A'r rhai a'u caent feddylient mwy
  Mai hwy a'u gwelodd gyntaf.

Y plant feddylient nad oedd un
  O'i fath drwy 'r byd i gyd;
Ei dawel wên a'i dyner lais,
  Ar unwaith â'i a'u bryd:
Mae un all ennill serch y plant,
  Yn meddu calon wiw,—
Rhyw olion yw o fawredd dyn
  Cyn colli delw Duw.

Ei chaeth bur, a'i ëang wybodaeth, a bair
Fod pawb yn boddloni ar unwaith i'w air.

Nid rho'i gorganmoliaeth i'r goreu a wnai,
A ffrewyll ddiarbed i bawb f'ai yn llai;
Ond tirion iawn fyddai wrth ofnus a gwàn,
A cheisiai bob amser eu harwain i'r làn.

Yr ydoedd yn gyfaill diweniaeth
  A phur,—O mor brin ydyw 'r rhai'n;
Nis cuddiai fradwriaeth mewn gwênau
  O'r golwg fel cleddyf mewn gwain:
Gwag chwedlau yn fuan ni choeliai,
  Ei ffydd yn ei gyfaill oedd gref;
Ond pan fyddai eisieu rho'i cerydd,
  'D oedd neb yn fwy gonest nag ef.

'R oedd ganddo ryw allu rhyfeddol
  I adwaen cymeriad pob un
A welai, fe 'i chwiliai ar unwaith,
  Nid hawdd oedd ei dwyllo mewn dyn:
Pawb fyddent yn well o'i gymdeithas,
  Nid llygru â'i eiriau wnai ef;
Na, drwyddynt y rhedai gwythien
  Arianaidd o grefydd y nef.

Ei lwybr oedd lân fel y wawrddydd,
  Heb gael ei lychwino erioed;
Heirdd flodau amryliw Paradwys
  Ymdarddent lle sangai ei droed:
Mor dawel â'i feddwl gorphwysed,
  Boed ysgafn dywarchen ei fedd;
Paham y galarwn am dano,
  Ac yntau yn nhrigfan yr hedd?

Am lwyddiant yr arfau nid ydynt yn gnawdol,
I hollol ddymchwelyd holl gestyll y diafol.
Yr eglwys bryderai, gobeithiai, gweddïai,
Ond Cyntafanedig yr Angeu a'i siomai.
Pe ffrydiau o ddagrau allasent arafu
Gwyllt gamrau marwolaeth, nid ef gawsai 'i gladdu.
Gan sibrwd y geiriau,—" Dystawa'n yr Arglwydd,"
Ehedodd ei enaid i'w gartref clyd, dedwydd.
Hyll wyneb marwolaeth belydrai gan wênau,
Pan â'i ef yn ëon i'r bywyd drwy angau;
A'r bedd orchymynwyd i gadw 'n ofalus
Ei lwch hyd y dydd daw yn gorph gogoneddus;
Pan lyngcir yr angeu mewn llawn fuddugoliaeth,
Llygradwy a wisgir âg anllygredigaeth;
Pan floeddia'r Archangel, nes crynu y crëad,
A deffro preswylwyr y llwch mewn amrantiad.

Rhagluniaeth y nefoedd! mor dywyll ei llwybrau,
Pa ddyn all fynegi ei dyfnion fwriadau?
Ymgolla yn hollol uwchben ei chwith droion,—
Rhy ddyrys i'w holrhain yw ffyrdd ei holwynion.
Mae olwyn mewn olwyn yn tröi i'r gwrthwyneb,
Diflana y meidrol o flaen Anfeidroldeb.
Ond Arglwydd y Lluoedd, Efe sy'n teyrnasu,
Drwy nefoedd a ddaear mae yn llywodraethu;
Cymylau tywyllwch amgylchant ei orsedd,
Ond barn a chyfiawnder a welir o'r diwedd.
Rhy ddyrys i ni oedd ei ffordd pan gymerodd
Ein cyfaill, ar haner ei ddiwrnod noswyliodd:
Rho'i Seion mewn galar, tristâu ei gyfeillion,
A'i rwygo o fynwes ei brïod hoff, dirion.
Ond Efe sydd yn gwybod pa beth sydd yn orau,
Goleuni byd arall esbonia 'i fwriadau.

I gadw 'i lwch ef, cysegredig yw
Gwyryfol gladdfa'r Bwlch hyd gâniad udgorn Duw.

O fynwent dawel! mor ddymunol yw
I ddiluddedu hoffus blentyn Duw.
Bydd gwlith y nos yn falch gael gwlychu 'r fàn,
A'r Gwanwyn têg a'i gwisg â blodau càn:
Tywallta 'r fronfraith ffrwd o nodau cerdd
Uwchben y fan o gangau 'r ywen werdd;
Pan ddeifia Hydref wisgoedd anian dlos,
Galaru ar ei ol wna gwynt y nos.
Tröf finnau i mewn i ollwng deigryn prudd
Ar fan ei fedd,—iachâd i'm hysbryd rydd.

ARION.

*Sef W. E. Williams,*
*Llanengan British School.*

---

A'r parch oedd ynddo i'r pur a'r da,
  Gynnyddodd drwy ei oes.

Tra gwenai heulwen cysur
  Uwchben y bwthyn bach,
Mor ddysglaer oedd dyfodol cu
  Y bachgen nwyfus iach :
Ond Ow ! yr haul fachludodd,
  Daeth cwmwl dû i'w sêdd,
Llaw angeu hŷf a glödd ei dad
  Dan dyweirch oer y bedd.

Ow ! ddiwrnod llawn o drallod
  I deulu 'r "Hafod" brudd,
Eu hunig heulwen wedi fföi
  Yn anterth canol dydd !
Gobeithion lu gyd-gladdwyd
  Yn mêdd yr hynaws ŵr,
Diflanu wnaeth cynlluniau fyrdd
  Fel ewyn ar y dŵ'r.

Rhaid cefnu ar yr ysgol,
  'R ol colli 'r serchog dad,
A myn'd i wasanaethu mewn
  Amaethdŷ yn y wlad :
Ni welwyd mewn gwasanaeth
  Anwylach un erioed,
Fe garai pawb y bachgen bach,
  Amddifad, dengmlwydd oed.

Cynnyddu mewn gwybodaeth
  Yn gyflym wnai o hyd,
Dibrisiai rwystrau, gwawd, a sèn,
  Ac anfanteision byd :
'R ol adeg "cadw noswyl,"
  Yn astud ni a'i cawn,
Y benod at "yr Ysgol Sul"
  Efryda 'n fanwl iawn.

Gwnaeth eilwaith yn hysbys ei fwriad
  Dan deimlad o'r gwrol a'r prudd;
Ca'dd rwydd-deb tuhwnt i'w ddych'mygion,
  A'i galon lwyr roddai i'r swydd,
Arwyddion addawol ganfyddid,
  A'i lafur goronid â llwydd.

Ymdrechodd yn ddiflin heb ballu,
  Er casglu gwybodaeth a dysg,
Yn gyflym ymddyrchai i fyny,
  Gan dyfu 'n un mawr yn ein mysg;
'R ol gadaw hen Glynnog â i Ddublin,
  Ac wed'yn i'r Bala am faeth,
Anwylid e'n fawr drwy 'r ysgolion
  Fel cyfaill glân galon a ffraeth.

Yn brysur ymledai ei glodydd
  Fel gwych efengylydd dros Dduw;
O dano mae 'r tyner yn wylo,
  A'r caled yn *teimlo* i'r byw;
Ei ddullwedd mor syml a dirodres,
  Er hyny, mor gynes, mor gu,
Mor addfwyn, mor lednais, mor dawel,
  Mor isel, ac eto mor hy'!

Cyflawnodd ei swydd megys "angel,"
  Yn dawel a diwyd bob pryd;
Cydweithiai â'i frodyr yn ffyddlon,
  Aent galon wrth galon yn nghyd:
Tynerwch ei fynwes garuaidd,
  A'i anian nefolaidd wrth fyw,
A rwymai bob dyn i'w fawrygu,
  A'i barchu fel hynod ŵr Duw.

Y plant yn arbenig a garai yn gu,
A mawr ei ymdrechion a'i ofal a fu,
I'w gwneyd yn rhai hyddysg yn Meibl eu Duw,
Ei chwilio, ei garu, ei feddu, a'i fyw.

Fel plant amddifaid, unig, prudd,
'Rol colli tyner dad.

Yn "Nghyrddau Dirwest" pwy a gawn
O'i fath i lanw 'i le ?
Un ufudd, ewyllysgar, rhwydd,
A didwyll oedd efe ;
Nid gollwng saeth ar antur wnai,
Ond saethai 'i wych i'r nôd ;
Ni roddodd glwyf i fynwes neb
Heb *angen* clwyf erioed.

Ac nid ymddangos byddai ef,
Yn nghylchoedd c'oedd yr oes,
Yn aiddgar dros ddirwestiaeth gu,
Ac yna byw yn groes ;
Nid gŵr oedd ef a garai 'n ffôl
*Ymddangos* er mwyn clod,
Ond *bod* yn ffyddlawn dros ei Dduw
Oedd iddo 'n uchaf nôd.

Dychymyg prudd sy'n dyfod,
A'i bwyntel gywrain, gu,
I bortrêadu 'n gwrthddrych
Yn anwyl fel y bu ;
Ei osgedd gwŷl, a'i wisgiad,
A'i holl ymddygiad ef,
Sy'n eglur iawn arddangos
Nodweddion cenad nef.

Awn i'r "Cyfarfod Misol"
I wel'd ein harwr cu,
Yn eistedd yn y gadair,
Gan felus hwylio 'r llu :
Mae 'i hoff ddeheurwydd syml,
A'i garedigrwydd e',
Yn rhwymo pawb i addef
Mai gwych y lleinw 'r lle.

Dŷd awgrymiad o'i deimladau,
  O ddystawrwydd fel y bedd!
Edrydd emyn llawn o foliant,
  Llawn barddoniaeth nefol rîn,
Mae pob llinell yn dyferu
  Megys olew dros ei fîn.

Cymer afael yn y Beibl,
  A darllena 'i eiriau gwiw,—
Dyna bwnc yr adran heddyw—
  "Dyogelwch teulu Duw:"
Symledd hynod y darlleniad
  Foddia 'r dyrfa fawr i gyd,
Dŷd well goleu ar adnodau
  Nag esboniad goreu 'r byd.

Wedi 'r darllen gwir ragorol,
  Pletha 'i ddwylaw 'n weddaidd iawn,
Gan gyfeirio tua 'r nefoedd
  Yn ei hoff nodedig ddawn;
Mor afaelgar yw y weddi,
  Mor effeithiol yw ei gri;
Cluda'r dorf yn ddiarwybod
  Fel y ddeilen ar y lli'.

Gyda 'i bwyslais hoff ac esmwyth,
  A'i donyddiaeth felus, fwyn,
Edrydd eto emyn arall,
  Nes ein llanw â nefol swyn;
Nodweddiadol yw ei bennill,
  Mor gyfaddas iddo ef,
Megys angel-genad anwyl
  Bron ar adaw 'r byd i'r nef!

"*Syfled iechyd, syfled bywyd,*
  *Cnawd a chalon yn gytun,*
*Byth ni syfla ammod heddwch,*
  *Hen gytundeb Tri yn Un:*

Dan belydrau hwn daw anian
  I ymlòni er ein llês.

Dyna ddarlun têg o'n gwrthddrych,
  "Haul" oedd yntau yn ei oes,
I'n *goleuo* mewn athrawiaeth,
  A'n *cynhesu* at waed y groes:
Gwywai pechod yn ei boethder,
  Tyfai rhinwedd yr un pryd,—
Toddai galon annuwiolion,
  Ac adfywiai 'r saint i gyd.

Rhwydd bregethai ddyrys byncian
  Yr athrawiaeth gyda blâs,
Ond rhagorai arno 'i hunan
  Uwchben cadwedigol râs;
"Bethle'm Judah,"—"Bryn Golgotha,"
  "Dwyfol rinwedd angeu loes,"
Dyma hoff gartrefle 'i enaid,—
  "Rhyfeddodau marw 'r groes."

Dacw 'r dyrfa 'n ymwahanu,
  O! 'r fath ganmawl arno sydd;
Clywir llawer un yn canmawl,
  Eto, yn y "farn a fydd!"
Mae'r annuwiol, er yn ddystaw,
  Wedi derbyn saeth a briw,
Welir arno 'n glwyfus archoll
  Foreu câniad udgorn Duw!

. . . . . .

Bu 'n teithio 'n araf yn y glŷn,
  Hen gâdfaes brenin braw,
Bu 'n syllu ar angeu ddyddiau maith
  Yn nesu oddi draw;
Edrychai arno megys teyrn
  Gormesol, erch ei lun;

Syllwch fry, i Wynfa dawel,
  Yno mae wrth fwrdd y wlêdd.

Rhodder arno faen o fynor,
  I addurno 'i annedd oer;
Heddwch pur i'w lwch orphwyso
  Tra tywyno haul a lloer:
Ac er dryllio 'i feddfaen fynor
  Pan y dyry Gabriel lef,
Erys iddo 'n "gofgolofnau"
  *Seintiau* yn y drydedd nef!

GALARWR GWYL EI EIRIAU.

*Sef T. E. Griffith,*
*Allt Ddû, Pwllheli.*

R. OWEN, ARGRAFFYDD, HEOL FAWR, PWLLHELI.

"Coffadwriaeth y Cyfiawn sydd Fendigedig."

---

# DWY FARWNAD

ER COF AM Y DIWEDDAR

# Barch. DAVID HUGHES

## LLANENGAN.

*(Cyd-Fuddugol yn Nghyfarfod Llenyddol Penlleyn.)*

---

Cyhoeddedig dan Nawdd Cyfarfod Ysgolion Dosbarth Penlleyn.

---

PWLLHELI:
ARGRAFFWYD GAN ROBERT OWEN, HEOL FAWR.

PRIS PEDAIR CEINIOG.

# MARWNAD.

---

HUGHES wedi marw ! sylweddoli hyn
Nis gall fy ngwyllt ddychymyg, am na fŷn;
Mae fel rhyw ysbryd dû, oer, dïeithr ddull,
Yn tremio arnaf o gysgodau 'r gwyll:
Pan geisiaf afael ynddo, dianc wna
Fel cysgod trymaidd, ond yn mhell nid â;
Daw yma eilwaith, lleinw 'm bron â chur,
Am un a garwn,—cyfaill fel y dûr.
Mae sŵn ei lais heb fyned o fy nghlust,—
Mor dyner fyddai wrth bregethu Crist:
Wrth feddwl am ei ddoeth gynlluniau ef,
Ei lafur er lledaeniad Gair y Nef,
A'i ddefnyddioldeb gyd âg eglwys Dduw,
Am foment teimlaf fel pe ba'i yn fyw.
Ond, erbyn myn'd i'r capel, brethyn dû
Sydd yno 'n d'weyd yr hanes fel y bu;
Gwag yw ei le, nid yw i'w gael yn hwy,
Ei le nid edwyn ddim o hono mwy.
Gwag, gwag yw'r oll, ei gredu raid yn llawn,
Mae yn rhy wir, ond O! *mae*'n anhawdd iawn.
Nid galar ydyw 'r oll; na, cofiaf lu
O oriau dedwydd yn ei gwmni cu,
Fel llenyrch heirdd oedd yn anialwch oes,
Yn diluddedu'm henaid dan bob croes.
Dychymygaf glywed sŵn ei lais o draw,
Yn d'od dros dònog afon brenin braw,—
"Er rho'i fy nghorph i orwedd mewn oer gell,
Bod gyda Christ i mi sydd lawer gwell."

Pregethu lon'd ei esgyrn ef
A roddwyd gan Ddoethineb Nef;
Ei bleser mwyaf ar bob pryd
Oedd chwareu "capel bach" o hyd;
Cynnullai 'r plant yn drefnus lu
I'r weirglodd lâs tu cefn i'r tŷ,
Ac yna 'n ddefysionol iawn
Tywalltai arnynt ffrwd ei ddawn.
Os byddai wrtho 'i hun, y brwyn
A'r grûg drawsffurfid gan hoff swyn,
Dychymyg yn Gymanfa fawr,
John Jones Tal'sarn* yw am yr awr.

Blynyddau ânt heibio, daw 'r bachgen yn llangc,
I'r chwarel cyfeiria ei gamrau;
Y dydd a'i galedwaith am ddysg mae ei wangc,
A'r nos mae 'n breuddwydio am lyfrau.
Fwriadwyd mo hono i'r graig, lawer tro
Wrth dyllu ystlysau 'r clogwyni,
Y fath yw ei awydd am ddysg, braidd na wnai
Obeithio cael damwain, er ofni.

Pan gasglai y "bongc" ar awr ginio
I drafod am grefydd a dysg,
Yn astud gwrandawai pawb arno,
Mae'n ffafryn pob un yn eu mysg:
Eryri fendithiwyd â dynion
Adawsant eu hol ar eu hoes;
Ac yntau, dan gysgod mor dirion,
A dyfai mewn rhinwedd a moes.

Am yspaid yn ngwmwl dinodedd
Bu gwefr ei athrylith yn nghudd;

---

* Byddai y Parch. J. Jones yn Llanberis yn aml, a mawr oedd edmygedd ein gwrthddrych o hono drwy ei oes.

"Eben Fardd" sydd enw gerfiwyd
  Ar lech calon Gwalia wèn,
Cofir ef tra crib y Wyddfa
  Yn nghymdeithas sêr y nen;
Cofiai yntau ei weddïau,
  Soniai am y "Seiat Fawr,"
Pan y bu i'w danllyd brofiad
  Dynu 'r nefoedd oll i lawr.

Muriau Ty'n y Coed* y'nt heddyw
  Dystion i'w ddiwydrwydd llawn,
Pan mewn penbleth uwchben geiriau
  A chwestiynau dyrys iawn;
Llaw wèn cariad ffurfiodd undeb
  Rhyngddo â llawer yn y lle,
A fodola hwnt i angeu,
  Draw yn ngwawl y drydedd ne'.

Am athrofa y prophwydi,
  Yn y Bala, yr ymâd,
Lle anwylir gan bob calon
  Fethodistaidd trwy y wlad:
Wrth draed y Doctoriaid yno
  Yfai 'n llwyr Iorddonen dysg;
Ennill serch ei gyd-fyfyrwyr
  Wnaeth tra yno yn eu mysg.

'Nol bod am flynyddau yn dysgu, daw weithion
Yn amser ymroddi i waith a gofalon;
Ymroddi a wnaeth, a difefl weithiwr ydoedd,
Mewn amser ac allan o amser ni pheidiodd
Ei glod â'i yn hysbys drwy 'r lliaws eglwysi,
Fel un âg arddeliad ar ei genadwri.

---

* Yr amaethdŷ lle y lletyai ynddo.

Cyfnewidiodd wêdd yr ardal,
  Rho'es ei ddelw ar y lle ;
Cyn y gwelir ffrwyth ei lafur
  Oll, rhaid cael claer oleu 'r ne'.

Yno, mewn unigedd tawel,
  Mae 'n astudio yn ddibaid;
Gosod sylfaen gwir enwogrwydd
  Ar graig dwys fyfyrdod raid :
Oddiar ei llechweddi prydferth
  Gwyliai Neifion yn ei gryd ;
Os yn mhell o'r byd a'i ddwndwr,
  Nid oedd golled yn y byd.

Rho'i cyfeiriad wnaeth i feddwl
  Llawer bachgen yn eu plith ;
Buasai llèni anwybodaeth
  Yn eu dàl yn dywyll byth :
Mewn llenyddiaeth, fel mewn crefydd,
  Brenin ydoedd yn y fro ;
Gyda Blodau 'r Oes a Dirwest
  Cododd yno lengar dô.

Nid yr afon wyllt lifeiriol
  Yn ymdaenu dros y wlad,
Gan ysgubo 'r oll i'w chanlyn,
  Ond y ffynnon loëw fad,
Yrai ffrydiau caredigrwydd,
  Loëwon lu fel gwlith y nef,
O dan laswellt gostyngeiddrwydd,
  Dyna oedd ei fywyd ef.

Nid rhyw seren wibiog danllyd
  Dynai sylw haner gwlad,

Neu fel yr enfys ddysglaer sydd uwchben
Yn glwys addurno mynwes wleb y nen;
Ei lliwiau heirdd ymdoddi i'w gilydd wnant
I wneyd *un* enfys ddigyffelyb a'nt.
Gweinidog ydoedd feddai dalent gref,
A gras i arwain gweiniaid tua 'r nef.
Gŵr Duw! ofnadwy bwysig ydyw 'r gwaith,—
Rho'i iawn gyfeiriad ar dragywyddold daith;
Mae 'n cerfio, nid ar farmor, oer, heb chwyth,
Ond ar eneidiau sydd i bara byth.
Y pwys oedd yn ei waith ystyriai 'n llawn,
A'i wneyd a wnai yn gydwybodol iawn.
Fel garddwr yn ei ardd y gwnai ei ran
I drin a meithrin aml blanhigyn gwàn;
A chofiai y cyfodid hwy cyn hir,
O'r tawchlyd fyd i wlad yr awyr glir;
Lle tyfant yn fytholwyrdd goedwig wiw,
Am byth o amgylch llachar orsedd Duw.
Ei wrandaw mewn cyfeillach oedd fawr fraint,
Rhyw flaenffrwyth o fwynhâd, gorphwysfa'r saint.
'Roedd ganddo adnod ar bob pwnc yn llawn,
A'i thrin a fedrai gyda nefol ddawn.
Dywedai 'n aml " Pan gyrhaeddaf fi
Yn iach ■ llòn y wlad sydd uwch y lli',
Ni chaiff un angel dd'weyd, a minnau 'n ddyn,
I mi un newydd o fy llyfr fy hun."
Ei sanctaidd wên ymlidiai ofnau câs,
Tywalltai i archollion olew gras;
Trawsffurfiai aml brofiad bach, dilun,
Yn werthfawr berl nes synu 'r dyn ei hun.
Pan â'i at Dduw, gan ddadleu gwerth y gwaed,
Ar ddaear sanctaidd teimlai pawb ei draed,

Nid rhyfedd, llawer gwaith, bu gŵr Duw ynddi,
Mewn ymdrech nes gorchfygu 'r Iôn â'i weddi.
Beth bynag yw pleserau gwlad heb d'wllwch,
Feddyliem ei fod weithiau 'n cael hyfrydwch,
Wrth weled oddi draw y llanerch swynol,
Fu iddo 'n flaenffrwyth o'i fwynhâd presennol.
Fel angel Duw, oddiyno daw i'r cyhoedd
Pelydra 'i wyneb gan oleuni 'r nefoedd;
Ei eiriau oddiar allor goeth myfyrdod
Yn dân byw deimlir, deffrŷ pob cydwybod.
Pan sylla ar y llawr, pawb ddysgwyl wrtho,
Fel wrth losg-fynydd pan ar fin ymffrwydro;
Cyfoda 'i lygaid, llifa drychfeddyliau
Yn dònau o dân bywiol o'i wefusau.

Mawr ydyw 'r golled sydd yn bod
  Yn y Cyfarfod Misol,
Mewn galar mae eglwysi 'r sir
  Ar ol un gwir ragorol:
Tawedog yn gyffredin oedd,
  Ond os rhyw fodd gwnai siarad,
Bob amser traethu synwyr wnai,
  Ac astud ca'i wrandawiad.

Fel llywydd, arwain wnai efe,
  O'r golwg byddai hunan,
Ei ryfedd allu oedd ddiball
  I dynu ereill allan :
Ei bwyll a'i ochelgarwch ef,
  Dan fendith nef yn ddiau,
Hynodent dymhor têg ei swydd
  A gwaith ac nid chwydd-eiriau.

I holwyddori heb un pall,
  Ei allu oedd rhyfeddol;

Mor ddifyr fyddai gyda hwy
Ar nos "Cyfrinfa 'r Plant,"
Ceiniogau a mân lyfrau ro'i,
Wrth ro'i cynghorion gant:
Pob peth perthynol iddo ef
Oedd gysegredig iawn;
'R oedd yntau 'i hunan wrth ei fôdd
Yn eu mwynhâu yn llawn.

Gyda Dirwest bu yn ffyddlon,
Gweithio wnai 'n egnïol iawn;
A phan ddaeth Temlyddiaeth gyntaf,
Ynddo ca'i gefnogwr llawn:
Credu wnai mai rhan o grefydd
Ydoedd Dirwest yn mhob gwêdd;
Tros ei hegwyddorion cedyrn
Y dadleuai hyd ei fêdd.

Fel tad bu i undeb Llenyddol Penlleyn,
Tra yn ei fabandod yn waelaidd ei lun;
Nid rhyfedd fod llawer a'u dagrau yn lli'
Pan gofiant am enw fydd mwyach mewn bri.

Tra llawer yn ammeu ei ddyben a'i nôd,
A rhagfarn bron llwyddo i'w gael dan ei droed;
Bu ef iddo 'n gysgod a nawdd lawer tro,
Nes tyfu o'i geingciau i lenwi y fro.

Ei graffder wêl gyfle i wella y wlad
Mewn moesau, a'i dysgu i dynu mwynhâd
O flodau persawrus llenyddiaeth goeth, wir,
A'i ddoeth anerchiadau a gofir yn hir.

Fel beirniad, cymerai yn wastad fawr boen,
Pan fyddai 'n clorianu, pawb "dawent a sôn,"—

Tynerwch heb weniaeth geid ynddo,
  Arabedd heb fyned yn ffôl;
Un amser nid â'i dros y terfyn,
  Ond gwyddai pa bryd i drӧi 'n ol:
Naturiol a rhydd fel yr awel,
  Cymhwysai ei hun i bob lle,
A chludai bob amser i'w ganlyn
  Berarogl hyfryd y ne'.

Ond, Ow! dyma angeu yn newid ei wyneb,
Ar ganol ei waith ä i'r tragywyddoldeb;
Pan yw haul ei fywyd yn anterth dysgleirdeb,
Machludo y mae dan gymylau marwoldeb.
Mae 'r Gwanwyn yn gwasgar prydferthwch a bywyd
Yn dònau, a'r byd yn blodeuo yn hyfryd;
Mae 'r adar yn cânu, a phawb yn llawn afiaeth,
Ond gwywo mae ef dan lem awel marwolaeth.
Mor frau yw ein bywyd, mor llawn o ofidiau,—
Mae 'r enaid yn brysio am ryddid yr angau;
Beth ydyw *perffeithrwydd* y bywyd presennol
Ond pelydr gwanaidd y boreu tragywyddol?
Yn sŵn tònau 'r afon am fisoedd mae 'n nychu,
Yn raddol, ond sicr, i'w glàn mae yn nesu:
Gwêl wlad y goleuni drwy dawch ei gwyllt genlli',
Mae 'n edrych yn wyneb marwolaeth heb ofni.
Fel eryr ymgodai o greigiau 'r ddaearen,
O ran ei fyfyrdod fry, fry i ffurfafen
Y fuchedd ysbrydol, a theimlem ar brydiau
Yn awyr byd arall wrth wrando ei eiriau.
Neilltuedd ei gystudd oedd werthfawr i'r eglwys,
Ei gyfarwyddiadau a'i weddi ddifrifddwys;
Fel Moses o'r mynydd dyrchafai ei freichiau,
A'i galon i'r nefoedd mewn gwresog ymbiliau,

Er ofni glŷn marwolaeth drwy ei oes,
Heb wybod, braidd, ä drwy ei chwerw loes:
O dawch y glŷn i glaer oleuni daw,
A gwêl heirdd lethrau anfarwoldeb draw.
O fryniau tragywyddoldeb edrych ef,
A gwêl bellderoedd anherfynol nef:
Mor dêg yn awr yr heirdd driganau fry,
'Nol cefnu ar y byd ac angeu dû;
Mor ogoneddus yw 'r olygfa gùn,
Ei sylweddoli nis gall marwol ddyn.
Ond prin y credwn y gallasai ef,
Er syllu ar brydferthion nef y nef,
Ymdeimlo 'n ddedwydd nes arweiniwyd ef
Gan ei warcheidiol angel drwy y nef,
I wel'd yr Oen sydd megys wedi 'i ladd,—
Mae gartref mwy,—gorphwysfa fythol ga'dd;
'Nol bod drwy ffydd yn ceisio 'n myd y gwae,
Mor ddedwydd cael ei weled fel y mae.
Ei fywyd dwyfol ymddadblygu wna,
Y' malmaidd awel gwlad y bythol hâ'.
Mae angeu 'n elw,—O!'r fath elw yw
Cael myn'd o fyd y gwae i fynwes Duw!

Daeth dydd ei angladd,—diwrnod tywyll, dû,—
I'w ro'i mewn galar yn ei olaf dŷ.
O barch i alar ei gyfeillion cu
Mae 'r nef uwchben yn tywallt dagrau lu;
Ac fel yn awgrym o'i dragywyddol hedd,
Mae 'n brysio tyfu blodau ar ei fedd.
Cyfeillion gasglant o bob cŵr o'r wlad,
Mae 'r ardal oll mewn galar am ei thad.
O! olwg swynol,—er cael angladd saint,
Mewn hunan-aberth treulio oes sydd fraint.

# MARWNAD.

O fewn yr "Hafod uchaf,"
  Wrth droed y Wyddfa fawr,
Y gwelid baban bychan, cu,
  Yn gwenu 'n dêg ei wawr;
I'w serchog rïaint anwyl
  Rhyw angel ydoedd ef,
Edrychent ar yr ie'ngaf un
  Fel anrheg *ola* 'r nef.

Gweddïai 'i fam yn fynych
  Cyn iddo adaw 'r cryd,
Am i'r Goruchaf wneyd ei mab
  O ddefnydd yn y byd:
A bron cyn gallai 'u deall
  Hoff orchwyl pawb drwy 'r tŷ,
Oedd egwyddori 'r bachgen bach
  Yn hanes Iesu cu.

Ei dymher siriol serchog,
  Edmygid gan bob âch,
A gwyliai pawb rhag rhoddi clwy'
  I galon "Dafydd bach;"
Ac fel y tyfai i fyny
  Bradycha 'i ddawn ei hun,
Can's gwelid yn ei lygaid clir
  Fod ynddo ddefnydd dyn.

Er gwaethaf anfanteision,
  I'r ysgol elai 'n rhwydd,
Yn fachgen egwan seithmlwydd oed,
  Rhyfeddol oedd ei lwydd;
Un anwyl yn ei ddosbarth,
  Un ufudd, hardd ei foes,

Yn raddol ymbleserai
  Yn ngweithiau goreu 'r oes,
I ddirnad athrawiaethau 'r Gair,
  Ei holl feddylfryd ro'es;
Darllenai weithiau Baxter,
  A Gurnal, dduwiol-fryd,
A Doctor Owen, gyda blas,
  Hen gewri pena 'r byd.

Benthycai lyfrau lawer,
  Ond nid i'w cadw 'n ffôl,
*Darllenai* 'r oll, *trysorai* 'r gwych,
  Gadawai 'r gwael ar ol:
Fe sugnai 'r mêl yn ddiwyd
  Fel y wenynen gu,
Ac O! mor felus ganddo caid
  O dduliau 'r tadau fu!

'Rol treulio blynyddoedd mewn lafur,
  A'i natur yn wanaidd a gwyw,
Cynhyrfwyd ei galon i'r gwaelod
  Wrth ganfod plant dynion yn byw
Yn nghanol pleserau annuwiol,
  Gresynol sefyllfa ei oes
Gymhellai ei feddwl heb oedi
  'Gyhoeddi efengyl y groes.

Ei deimlad amlygodd yn wylaidd,
  Ond oeraidd dderbyniad gai 'r brawd,
A bron nad oedd ambell henadur
  Am wneuthur y syniad yn wawd!
'R ol hyny, fe dreuliodd flynyddau
  Dad feichiau o siomiant a chur,
Ond gorchwyl rhy anhawdd, er hyny,
  Oedd llethu anianawd mor bur.

Ail-ennyn wnai 'r fflam yn ei fynwes,
  A'r ffwrnes â'i 'n boethach bob dydd,

Cynlluniai a gweithiai'n egnïol a rhwydd,
Ymroddai o lwyrfryd i lanw ei swydd;
Ei felus oedfäon fai 'n wledd o fwynhâd,
A erys yn hirfaith mewn côf yn y wlad.

Hoff "Gwrdd yr Ysgolion" a garai mor fawr,
Sydd heddyw 'n alarus, hiraethus ei wawr;
Ei hynaws *Arholydd* adawodd ei swydd,
Ymgiliodd o'r golwg yn nghanol ei lwydd.

Fe bery adgofion am dano yn hir
Yn nglŷn â'r Ysgolion Sabbothol drwy 'n tir,
Ac er iddo farw, ei enw 'n ddigêl
A gludir yn gynes i'r oesau a ddêl.

I'r wŷl Lenyddol cyrchu wnaem,
Lle cesglid doniau 'r wlad,
Ac yno gwelid David Hughes
Mewn llonder a mwynhâd:
A'i bert ffraethebion, gloëwon, glân,
Gwefreiddiai 'r dorf i hwyl;
Llêngarwr tirion, union oedd,
A noddydd pena 'n gŵyl.

Ei feirniadaethau manwl oll
Ddangosent graffder gwych,
Llawn addysg a difyrion coeth
Ac nid rhigymau sych:
Cysurai'r anfedrusion gwael,
A'r eiddil gwyd i'r làn,
Hynawsedd ei gymeriad hoff
Oedd eglur yn mhob man.

Fe fegir llawer llenor gwych
Ddaw 'n addurn yn ein tir,
Gychwynwyd pan yn ieuanc iawn
Dan nawdd y cyfaill gwir:
Mae 'r holl lenorion erbyn hyn
Yn teimlo 'n llawn tristhâd,

Ei gynghor doeth, synhwyrol,
A'i gyfarwyddyd ef,
Ystyrid yn wir werthfawr,
Ac yn awdurdod gref;
Ei ddeall clir a threiddgar,
Ei bwyll, ei ddawn, a'i ddysg,
A'i grefydd loëw a'i codai 'n
Wr cadarn yn ein mysg.

Yn y gyfeillach dranoeth,
Yn gyson gwelid ef,
Er cefnu o lawer ereill
O hylon weis y nef;
Ei holl sylwadau ydynt
Dan ryw eneiniad gwych,
A gorchwyl anhawdd weithian
Yw canfod llygad sych.

'R ol hyn pregetha 'n rymus
A chymeradwy iawn,
Tra 'r dyrfa 'n llawn boddineb
Yn gwrandaw ar ei ddawn;
Ond os dymunem ganfod
Ein gwrthddrych mewn mawrhâd,
Dilynwn ef i'w wrandaw
Nos Sabbath yn y wlad.

Dacw 'r bobloedd yn dylifo,
"Chwech o'r gloch" sy'n agoshâu,
Dacw 'r gwych addoldŷ 'n orlawn,
Gwêl y drysau 'n cael eu cau;
Dacw David Hughes i'r pwlpud,
Plyga 'n wŷl ger bron ei Dduw,
Erfyn wna am nerth yr Ysbryd,
Fel b'o i'r annuw dröi a bŷw.

Teifl ei olwg dros y dyrfa,
Mae dysgleirdeb ar ei wêdd,

*Dianwadal yw 'r addewid,*
*Cadarn byth yw cynghor Duw ;*
*Fe addawodd na chawn farw,—*
*Yn nghlwyfau 'r Oen y cawn i fyw !"*

Cân y dorf nes tanio 'r teimlad,
Llenwir llygaid aml un
Gyda deigryn gloëw, dysglaer,
Fel ei lygaid yntau 'i hun;
"*Dianwadal yw 'r addewid,*"
Rhaid yw dyblu a threblu 'r gân,
Nes y teimlir süad hyfryd
Mwyn awelon Salem lân.

Teifl edrychiad gwylaidd, serchog,
Eto dros y dorf i gyd,
Yna derllyn eiriau 'r "testyn"
"FELLY CARODD DUW Y BYD:"
Tremia 'r dyrfa 'n ddyfal arno,
Teimla yntau 'n llawn boddhâd,
Tra 'n eu dwyn i bleserdeithio
Cefnfôr tawel "cariad rhâd."

Mae rhyw naturioldeb gwledig,
Perffeithiedig yn ei ddawn,
A gwreiddioldeb meddwl treiddgar
Yn ei holl sylwadau 'n llawn;
Medr drin y dwfn a'r dyrys,
A'u hegluro 'n berffaith glir;
Ei nodedig weinidogaeth,
Dêg oleuai yn ein tir.

Da cael "lleuad" i oleuo,
Ond goleuni diles, oer,
Yw y goleu gwỳn, arianaidd,
A gyfrenir gan y lloer:
Ond mae 'r "haul" yn wych gyfuniad
O oleuni clir a gwrês,

Mae gwel'd ei wêdd, a theimlo 'i law,
  Yn gwywo bywyd dyn.

Gŵr duwiol iawn oedd DAVID HUGHES,
  Nodedig yn ei oes,
Ni rodiai ef o'i febyd cu
  Ond canol llwybrau moes;
Bu *fyw* yn agos at ei Dduw,
  Bu *farw* yr un modd,
Gan wênu 'n nwylaw angeu hyf
  Fel baban wrth ei fôdd!

. . . . . .

Er trymed, er dyfned, y clwyfau
  A ga'dd cymdeithasau ein gwlad,
Hawdd canfod mai eglwys Llanengan
  Sy'n gruddfan mewn dyfnaf tristhâd:
Y "cyfaill" iselfryd, cariadus,
  A'r "bugail" gofalus dros Dduw,
'Roedd colli 'r "gweinidog" defnyddiol,
  Mynwesol, yn archoll i'r byw.

Hir erys ei felus bregethau
  Yn ddwfn yn meddyliau y wlad;
Er marw eu hawdwr, cânt eto
  Eu cofio mewn nefol fwynhâd;
Er rhoddi ei gorph yn y ddaear
  Mewn galar, yn waelaidd, mewn arch,
Yn *fyw* bydd ei enw, ŵr hynod,
  Ni chleddir mewn beddrod ei barch.

Duw fo 'n nawdd i'w weddw dirion
  Yn y dyfroedd dyfnion hyn,
Taled iddi am ei wylio,
  Drwy 'i chysuro yn y glŷn:
Nac edrychwch tua 'r fynwent,
  Nid yw'ch prïod yn y bêdd,